

ATODLEN 2

Rheoliadau 6(5) a 7(1)

TROTHWYON ASESU UCHAF AC ISAF A GORMODEDDAU**RHAN I****Trothwyon asesu uchaf ac isaf**

Bydd y trothwyon asesu uchaf ac isaf canlynol yn gymwys:

SYLFFWR DEUOCSID (SO₂)

(a)	<i>Diogelu iechyd</i>	<i>Diogelu ecosystemau</i>
Trothwy asesu uchaf	60 % o'r gwerth terfyn 24-awr (75 µg/m ³ , y mae'n rhaid peidio â mynd yn uwch nag ef fwy na 3 gwaith mewn unrhyw flwyddyn galendr)	60 % o werth terfyn y gaeaf (12 µg/m ³)
Trothwy asesu isaf	40 % o'r gwerth terfyn 24-awr (50 µg/m ³ , y mae'n rhaid peidio â mynd yn uwch nag ef fwy na 3 gwaith mewn unrhyw flwyddyn galendr)	40 % o werth terfyn y gaeaf (8 µg/m ³)

NITROGEN DEUOCSID (NO₂) AC OCSIDAU NITROGEN (NO_x)

(b)	<i>Gwerth terfyn fesul-awr ar gyfer diogelu iechyd pobl (NO₂)</i>	<i>Gwerth terfyn blynyddol ar gyfer diogelu iechyd pobl(NO₂)</i>	<i>Gwerth terfyn blynyddol ar gyfer diogelu llystyfiant(NO_x)</i>
Trothwy asesu uchaf	70 % o'r gwerth terfyn (140 µg/m ³ , y mae'n rhaid peidio â mynd yn uwch nag ef fwy na 18 gwaith mewn unrhyw flwyddyn galendr)	80 % o'r gwerth terfyn (32 µg/m ³)	80 % o'r gwerth terfyn (24 µg/m ³)
Trothwy asesu isaf	50 % o'r gwerth terfyn (100 µg/m ³ , y mae'n rhaid peidio â mynd yn uwch nag ef fwy na 18 gwaith mewn unrhyw flwyddyn galendr)	65 % o'r gwerth terfyn (26 µg/m ³)	65 % o'r gwerth terfyn (19.5 µg/m ³)

MATER GRONYNNOL (PM₁₀)

(c) (1)

	<i>Cyfartaledd 24-awr</i>	<i>Cyfartaledd blynyddol</i>
Trothwy asesu uchaf	60 % o'r gwerth terfyn (30 $\mu\text{g}/\text{m}^3$, y mae'n rhaid peidio mynd yn uwch nag ef fwy na saith gwaith mewn unrhyw flwyddyn galendr)	70 % o'r gwerth terfyn (14 $\mu\text{g}/\text{m}^3$)
Trothwy asesu isaf	40 % o'r gwerth terfyn (20 $\mu\text{g}/\text{m}^3$, y mae'n rhaid peidio mynd yn uwch nag ef fwy na saith gwaith mewn unrhyw flwyddyn galendr)	50 % o'r gwerth terfyn (10 $\mu\text{g}/\text{m}^3$)

PLWM (Pb)

	<i>Cyfartaledd blynyddol</i>
Trothwy asesu uchaf	70 % o'r gwerth terfyn (0.35 $\mu\text{g}/\text{m}^3$)
Trothwy asesu isaf	50 % o'r gwerth terfyn (0.25 $\mu\text{g}/\text{m}^3$)

BENSEN (C₆H₆)

	<i>Cyfartaledd blynyddol</i>
Trothwy asesu uchaf	70 % o'r gwerth terfyn (3.5 $\mu\text{g}/\text{m}^3$)
Trothwy asesu isaf	40 % o'r gwerth terfyn (2 $\mu\text{g}/\text{m}^3$)

CARBON MONOCSID (CO)

	<i>Cyfartaledd wyth-awr</i>
Trothwy asesu uchaf	70 % o'r gwerth terfyn (7 mg/m^3)
Trothwy asesu isaf	50 % o'r gwerth terfyn (5 mg/m^3)

RHAN II

Canfod gormodeddau sy'n uwch na'r trothwyon asesu uchaf ac isaf

Rhaid crynhoi gormodeddau sy'n uwch na'r trothwyon asesu uchaf ac isaf ar sail crynodiadau yn ystod y pum mlynedd blaenorol os oes data digonol ar gael. Bernir yr aed yn uwch na'r trothwy asesu os bu gormodedd yn ystod o leiaf tair blwyddyn wahanol allan o'r pum mlynedd flaenorol.

Os oes llai na phum mlynedd o ddata ar gael, gall ymgyrchoedd mesur byr eu parhad yn ystod y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn ac yn y manau sy'n debyg o fod yn nodweddiadol o'r lefelau llygredd uchaf gael eu cyfuno â chanlyniadau a geir o'r wybodaeth o restrau allyriannau a gwaith modelu er mwyn canfod gormodeddau sy'n uwch na'r trothwyon asesu uchaf ac isaf.

(1) Mae'r trothwyon asesu uchaf ac isaf ar gyfer PM₁₀ wedi'u seilio ar y gwerthoedd terfyn dangosol ar gyfer 1 Ionawr 2010, a gaiff eu hadolygu yng ngoleuni gwybodaeth bellach am yr effeithiau ar iechyd a'r amgylchedd, ymarferoldeb technegol a phrofiad wrth gymhwyso gwerthoedd terfyn presennol "Cyfnod 1". *Gweler* Erthygl 10 o Gyfarwyddeb 99/30/EC.

